# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-09-09 Papur 1: 9 Mehefin 2009

### Deisebau newydd

Mae’r papur hwn yn rhoi gwybodaeth gefndir gryno am bob un o’r deisebau a gafodd eu trafod am y tro cyntaf gan y Pwyllgor ar 9 Mehefin.

### (i) P-03-209 Dileu ffioedd dysgu yng Nghymru

### Geiriad y ddeiseb

Mae Cymru X yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddileu ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr sy’n byw yng Nghymru ac sy’n astudio mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.

### Y cefndir

Cynigiwyd y ddeiseb gan Cymru X - Young Plaid Ifanc a chafwyd 30 o lofnodion.

Mae’r prif ddeisebwr wedi paratoi datganiad ategol sy’n amlinellu cefndir y ddeiseb, ac sydd wedi’i atodi fel rhan o PET(3)-09-09 Papur 1A.

### (ii) P-03-217 Llyfrgell Genedlaethol Cymru - Agor ar Dydd Sadwrn

### Geiriad y ddeiseb

Yr ydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i sicrhau bod digon o arian yn cael ei ddarparu i Lyfrgell Genedlaethol Cymru, i alluogi’r Llyfrgell i wrthdroi ei benderfyniad i gau ar ddydd Sadwrn o’r 1af Ebrill 2009. Dydd Sadwrn yw unig ddiwrnod yr wythnos y gall ymchwilydd brwdfrydig, amatur sy’n gweithio, ymweld â’r llyfrgell.

### Y cefndir

Cynigiwyd y ddeiseb gan Nicholas Davey a chafwyd 93 o lofnodion.

### (iii) P-03-221 Gwell triniaeth traed drwy’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol

### Geiriad y ddeiseb

Rydym ni, Fforwm Pobl Hyn dros 50 oed Cwm Cynon, am gyflwyno deiseb yn galw am well triniaeth traed drwy’r GIG, yn enwedig i bobl hyn sy’n gaeth i’w tai yn ardal Rhondda Cynon Taf

### Y cefndir

Cynigiwyd y ddeiseb gan Siân Jones a chafwyd 49 o lofnodion. Mae’r prif ddeisebwr wedi paratoi datganiad ategol sy’n amlinellu cefndir y ddeiseb, ac sydd wedi’i atodi fel rhan o PET(3)-09-09 Papur 1A.

### (iv) P-03-224 Meithrinfa Stepping Stones

### Geiriad y ddeiseb

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymyrryd i atal cau Meithrinfa Stepping Stones ar gampws Glyn Ebwy, Coleg Gwent.

### Y cefndir

Cynigiwyd y ddeiseb gan Brian Walters a chafwyd 20 o lofnodion. Yn ychwanegol, casglodd y deisebwr dros 1000 o lofnodion am ddeiseb gysylltiol. Mae’r prif ddeisebwr wedi paratoi datganiad ategol sy’n amlinellu cefndir y ddeiseb, ac sydd wedi’i atodi fel rhan o PET(3)-09-09 Papur 1A.

### (v) P-03-227 Yn erbyn y ffordd fynediad arfaethedig am Metrix yn Lanmaes

### Geiriad y ddeiseb

Rydym ni, preswylwyr Llanmaes, Millands Park, a’r ardal wledig gyfagos yn gwrthwynebu:

 Y ffordd fynediad ogleddol arfaethedig ar gyfer y Coleg Amddiffyn Technegol arfaethedig

 Yr ystâd dai arfaethedig - Fferm Tremains

Gwrthwynebwn yr uchod am y rhesymau a ganlyn:

1. Mae'n golygu dinistrio safle maes glas pan fo safleoedd tir llwyd ar gael

2. Bydd yn creu cryn lygredd sŵn, golau a llwch

3. Bydd yn achosi niwed ecolegol sylweddol

Cynigiwyd y ddeiseb gan Cyngor Cymuned Llanmaes a chafwyd 416 o lofnodion. Mae'r prif ddeisebwr wedi paratoi datganiad ategol sy'n amlinellu cefndir y ddeiseb, ac sydd wedi'i atodi fel rhan o PET(3)-09-09 Papur 1A.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Mehefin 2009**